

Cynnwys

- Tudalen 1**
- Gwirfoddoli i Helpu'r Tirwedd i Ddod yn Fyw
- Tudalen 2**
- Gwirfoddoli i Helpu'r Tirwedd i Ddod yn Fyw (parhad)
 - Muntjac Sir Ddinbych
 - Helpwch I Gael 'Ratty' ar y Record
- Tudalen 3**
- I Fyny ac i Lawr yn Nhwyni Talacre
- Tudalen 4**
- Darganfyddiadau Newydd o Ddegawd o Ddyddiaduron Pathew
- Tudalen 5**
- Gwelliannau i Gynefin Madfall Ddŵr Gribog Sir y Fflint
 - Wythnos Bioamrywiaeth Cymru
- Tudalen 6**
- Digwyddiadau
 - Cysylltwch â Ni

Gwirfoddoli i Helpu'r Tirwedd i Ddod yn Fyw

Ym mis Tachwedd 2014, dechreuodd prosiect newydd o'r enw Prosiect Tirweddau Byw Alun a Chwiler a ariennir gan WREN a Dŵr Cymru, ynghyd â rhoddion hael gan aelodau o'r cyhoedd. Mae WREN yn fusnes nid er elw sy'n dyrannu grantiau drwy Gronfa Cymunedau Tirlenwi o gronfeydd a gynhyrchir gan Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint (CSFf), sy'n darparu prosiectau cymunedol, amgylcheddol a thref-tadaeth ledled y wlad.

Mae'r ddwy afon sydd wedi'u targedu ar gyfer y prosiect hwn eisioes wedi'u hystyried yn lleol fel mannau pwysig i fywyd gwyllt ac maent yn cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd, gyda rhai ohonynt dan warchodaeth ddwys. Fodd bynnag, mae newidiadau mewn arferion rheoli dros lawer o flynyddoedd wedi creu amodau nad ydynt yn ddelfrydol yn yr afonydd a'r amgylchedd cyfagos ar gyfer cefnogi'r fioamrywiaeth hon. Nod y prosiect tirwedd fyw yw creu'r cynefin gorau posibl, yn ogystal ag adfer peth o'r cynefin presennol i statws gwell, gyda'r canlyniad yn rhwydwaith ecolegol hyd yn oed yn well yn y ddau goridor yn yr afon a'r dirwedd gyfagos. Dywedodd Kristian Dales, Cyfarwyddwr Gwerthu a Marchnata Amgylchedd CSFf:

"Mae Amgylchedd CSFf ac WREN gyda'i gilydd yn ymrwymedig i gefnogi prosiectau sy'n diogelu, cynnal ac ehangu rhai o ecosystemau mwyaf unigryw'r wlad. Rydym yn edrych ymlaen at weld sut mae Prosiect Tirweddau Byw Alun a Chwiler yn mynd yn ei flaen ac yn helpu'r DU i gyrraedd targedau'r llywodraeth i wella a chynyddu bioamrywiaeth."

Mae rhai prosiectau'r gorffennol yn ardal y dirwedd fyw yn cynnwys Prosi-

ect Llygoden Bengron Dyfroedd Chwiler a Phrosiect y ffromlys chwarennog Dyffryn Alun. Canfu prosiect llygoden bengron y dŵr arwyddi-on o lygod pengrwn y dŵr ar rai safleoedd ar hyd yr afon Chwiler ac rydym yn anelu at gynnal ailrolwg o'r ardal i weld a oes unrhyw beth wedi newid, a hefyd i lywio cynlluniau rheoli yn well. Gall ardal yr arolwg hefyd ymestyn i Ddyffryn Alun gan fod arwyddi-on maes lygod pengrwn y dŵr wedi eu darganfod yma hefyd. Fodd bynnag,



Llygoden bengron y dŵr yw un o'r rhywogaethau targed

©www.NorthEastWildlife.co.uk

er mwyn cynnal arolwg mor helaeth, bydd angen help gwirfoddolwyr arnom! Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ac, os ydych yn lwcus iawn, efallai y byddwch yn gweld llygoden bengron y dŵr hyd yn oed...

Mae tymor y ffromlys chwarennog yn prysur agosáu ac mae arnom angen



Ffromlys chwarennog ymledol

©Phillip Precey

pobl i helpu i glirio ffromlys chwarennog o'r ddwy afon.

Parhad ar dudalen 2....

Dywedwch eich barn wrthym!

Hoffem glywed eich meddyliau am ein newyddlenni. Gallwch roi adborth drwy'r arolwg byr hwn ar

www.surveymonkey.com/s/Q99NJFL.



Coed Trellyniau

©Lin Cummins

Parhad o dudalen 1....

Mae'r planhigyn hwn wedi cael llawer o sylw o fewn y gymuned cadwraeth dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf sydd wedi bod yn fuddiol iawn i'r afon Alun, gydag ymdrechion staff a gwirfoddolwyr ymroddedig wedi llwyddo i glirio'r banciau o Landegla i Rydymwyn i'r pwynt lle does dim ond ychydig o blanhigion ynysig yn dod bob blwyddyn, ac mae ein blodau gwyllt brodorol yn ailymddangos yn araf. Eleni, mae digwyddiad tynnu ffromlys ar yr afon Alun, gyda bwffe gerllaw i ddilyn ar 2^a Gorffennaf yn yr Wyddgrug rhwng 18:00 a 21:00. Os ydych yn ystyried ymuno, yna ffoniwch Parc Gwledig Loggerheads ar 01352 810614 fel y gallwn archebu'r swm cywir o fwyd! Yn ogystal, bydd angen cymorth ar staff gyda theithiau cerdded ar hyn yr afon/tynnu ffromlys ar yr afon Alun a Chwiler, ac mae croeso i bawb (grwpiau ac unigolion).

Dim ond dau o'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael fel rhan o Brosiect Tirweddau Byw Alun a Chwiler yw'r rhain, mae mwyr ar gael ar hyn o bryd a bydd hyd yn oed mwyr yn ddi-os yn codi wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen!

Os hoffech gymryd rhan yn y prosiect fel gwirfoddolwr neu os ydych yn berchen ar dir ar lannau Afon Alun neu Chwiler, cysylltwch ag Amy ar amygreen@wildlifetrustswales.org. Gallwch hefyd ddilyn cynnydd y prosiect ar Twitter [@ACLLproject](https://twitter.com/ACLLproject). Er mwyn helpu i greu Tirlun Byw yng Nghymoedd Alun a Chwiler, gallwch gyfrannu at ein hymdrechion i godi arian drwy www.justgiving.com/alun-chwiler.

Muntjac Sir Ddinbych

Cafodd y Reeves Muntjac hwn ei weld ym mis Ionawr eleni ar gamera mewn llwyn (bushcam) mewn coetir yn Sir Ddinbych.



©Mal Ingham

Fel ceirw ymledol eraill, gall y rhywogaeth gael effaith andwyol ar gynefinoedd coetir. Gallwch roi gwybod os byddwch yn gweld un drwy wefan Cofnod yn: www.cofnod.org.uk.

Helpwch i Gael 'Ratty' ar y Record**Ydych chi wedi gweld 'Ratty'?**

Cafodd llygod pengrwn y dŵr eu hanfarwoli fel "Ratty" yn nofel boblogaidd Kenneth Grahame, *The Wind in the Willows*. Ar adeg cyhoeddi'r llyfr yn 1908, roedd modd gweld llygod pengrwn y dŵr ar hyd llawer o afonydd y wlad. Fodd bynnag, ers hynny, mae eu niferoedd wedi gostwng o 90% yn genedlaethol.




Mae'r niferoedd wedi gostwng yn bennaf oherwydd nad oes digon o gynefinoedd addas ar eu cyfer ac oherwydd bygythiad y minc Americanaidd.

Fel rhan o Brosiect Adfer Llygod Pengrwn y Dŵr Arfordir Gogledd Ddwyrain Cymru rydym ni'n gofyn i'r cyhoedd ymuno â 'helfa llygod pengrwn' drwy roi gwybod i ni os ydyn nhw'n gweld yr anifail yng ngogledd ddwyrain Cymru.

Mae gennym ddealltwriaeth sylfaenol o ddosbarthiad llygoden bengron y dŵr yn ein hardal prosiect ond mae

gennym lawer o fylchau ac mae llawer o'r achosion o'u gweld yn hen iawn. Ar hyn o bryd gallai pobl fod yn gweld llygod pengrwn y dŵr pan fyddant yn mynd am dro neu yn ddigon ffodus i'w gweld mewn pwll neu ffos leol, ond maent yn cadw'r wybodaeth iddynt hwy eu hunain a byddem yn hoffi iddynt ei rhannu gyda ni fel y gallwn dargedu ymdrechion cadwraeth yn fwy effeithiol.

I roi gwybod os byddwch yn gweld llygoden bengron y dŵr, ewch i www.cofnod.org.uk a chliciwch ar yr eicon 'Cofnodi Llygoden Bengron y Dŵr'.



I Fyny ac i Lawr yn Nhwyni Talacre

Mae systemau twyni tywod megis Talacre yn newid yn gyson. Cânt eu galw'n 'systemau dynamig' lle mae erydiad naturiol o'r gwynt a'r tonnau yn gyson. Er yn aml yn fwy caled yn ystod misoedd y gaeaf, gall pwysau pobl oherwydd twristiaeth a'r miloedd o ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn yn ystod misoedd yr haf hefyd ychwanegu at yr erydu. Mae'r gwaith i reoli'r twyni a'r traeth yn Nhalacre felly yn gofyn am ddull amlochrog.

ddodrefn y safle megis ffensys, pyst cyfeirbwyntiau a gorsafoedd cylch bywyd gael eu golchi i fyny neu eu colli'n gyfan gwbl. Nid oedd modd defnyddio maes parcio'r traeth tan fis Mai ac roedd mynediad i gerbydau ar gyfer ymwelwyr yn amhosibl.

Nawr ei bod hi'n Wanwyn 2015, mae'r ardal wedi gwella'n rhyfeddol wrth i natur ddeinamig y safle ddod



Y twyni'n torri ym mis Rhagfyr 2013



Malurion ar ôl difrod y storm

Erydiad Naturiol

Cafwyd dwy storm sylweddol yn ystod Gaeaf 2013/14 yn Nhalacre a achosodd i grib y twyni blaen leihau a chulhau gryn dipyn yn fwy nag a welwyd mewn 20 mlynedd. Amcangyfrifwyd bod rhwng 5 a 10 metr o dwyni blaen wedi cael eu golchi i ffwrdd yn y storm, gyda gostyngiadau uchder o lai na metr yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf, yn uniongyrchol y tu ôl i oleudy Talacre. Yn fwyaf arwyddocaol oedd 'torri' crib y twyni blaen lle torrodd ac ymchwyddodd y tonnau drwy'r ardaloedd y tu ôl i'r twyni. Roedd yr ardaloedd rhwng cribau'r twyni blaen a'r cefn yn dioddef llifogydd parhaus am nifer o fisoedd. Cafodd rhywogaethau a chynefinoedd eu heffeithio'n andwyol, gyda cholled cynefin daearol ar gyfer hela a gorffwyso i amffibiaid ac ymlusgiaid, ac i adar sy'n nythu ar y ddaear. Difrodwyd planhigion hefyd o ganlyniad i dreiddiad dŵr halen.

Roedd mynediad i'r cyhoedd ar hyd a lled y safle yn gyfyngedig. Cafwyd cryn ddifrod i seilwaith, wrth i



Techneg trapio tywod 2014

yn ei ôl yn llawn. Mae dyddodion tywod ar waelod system y twyni blaen drwy fisoedd y gaeaf wedi helpu i ddechrau'r broses o ailadeiladu crib y twyni. Mae technegau trapio tywod fel ffensio a phlannu coed Nadolig yn manteisio ar y broses hon i wella cyfraddau dyddodiad tywod.

Erydiad Ffactor Dynol

Mae nifer yr ymwelwyr ar ei ben ei hun yn creu swm sylweddol o erydiad ar hyd a lled y safle. Mae'r technegau rheoli sydd ar waith i leihau effaith hyn yn cynnwys darparu llwybrau cyfeirbwyntiau, y gellir wedyn eu cynnal er mwyn lleihau'r dosbarthiad o ymwelwyr. Caiff ffensys eu defnyddio fel ffordd uniongyrchol o eithrio pobl o ardaloedd arbennig o sensitif ac mae paneli dehongli yn addysgu ymwelwyr o ran sensitifrwyd yr ardal.

Caiff Twyni Talacre eu rheoli ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a Chyfoeth Naturiol Cymru, gydag ymgynghoriad gan nifer o gyrff o ddiddordeb arbennig.

Darganfyddiadau Newydd o Ddegawd o Ddyddiaduron Pathew

Caiff pathew benywaidd ei dal yn ofalus gan wirfodolwr sy'n gweithio gyda Phartneriaeth Pathew y Gogledd Orllewin. Mae'r bartneriaeth, sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ddinbych, Sw Caer a'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt wedi bod yn casglu data gwyddonol o boblogaethau pathew yng Ngogledd Cymru a Swydd Gaer ers 2005. Mae'r prosiect, lle mae pob pathew unigol yn cael ei farcio â microsglodyn, yn darparu gwybodaeth bwysig ar ddefnydd pathew o gynefin, disgwyliad oes, maint y boblogaeth ac ymddygiad bridio, sy'n helpu i lywio cadwraeth pathewod yn fwy effeithiol yn y DU. Mae'r gwaith wedi'i gynnal ers 10 mlynedd, gan ei wneud yr astudiaeth fwyaf o'r math hwn i gael ei wneud ar rywogaethau mamaliaid bach yn y DU. Mae wedi dadorchuddio nodweddion newydd diddorol yn rhywogaethau'r mamal bach hwn.

Mae DNA a dynnwyd o samplau blew wedi profi bod gan bathewod benywaidd ochr ddiwahân, gydag epil gan dadau lluosog yn yr un torllwyth. Canfu'r astudiaeth hefyd y gall pathewod benywaidd fagu ddwywaith yn yr un flwyddyn weithiau, ac yn achlysurol iawn, maent yn bridio cyn eu bod yn flwydd oed. Mae'r ddau ymddygiad hyn wedi'u gweld ymysg pathewod yn Ewrop, ond yn anaml yn y DU. Yn wir, doedd bridio gan 'ifanc y flwyddyn' erioed wedi'i gofnodi yn y DU o'r blaen.

Dywedodd swyddog bioamrywiaeth Sw Caer, Sarah Bird:

"Mae ein hastudiaeth wedi taflu goleuni newydd ar ecoleg ein pathewod ac wedi tynnu sylw at y ffactorau sy'n bwysig i oroesi yn y DU. Nid chafodd diwahanrwydd ymysg benywod ei gofnodi o'r blaen; bydd yn cynyddu amrywiaeth enetig o fewn torllwyth, gan helpu'r boblogaeth i oroesi. Yr un mor bwysig yw'r ymddygiadau bridio eraill rydym wedi eu gweld. Mae'n debygol mai'r blynyddoedd pan fydd benywod yn bridio ddwywaith, ac ifanc y flwyddyn hefyd yn bridio, yw'r blynyddoedd pan y gall poblogaethau gynyddu go iawn. Mae'r ymddygiadau hyn yn ôl pob tebyg yn hanfodol ar gyfer cynnal poblogaethau pathew iach yn y DU.

Rydym wedi gallu ymweld â'r safle bedair gwaith bob blwyddyn am y 10 mlynedd diwethaf ac mae milfeddygon Sw Caer wedi marcio dros 1000 o bathewod gyda

microsglodion bach yn y cyfnod hwnnw. Mae hyn wedi ein galluogi i adeiladu llawer iawn o ddata pwysig ac unigryw iawn. Rydym yn gwybod llawer iawn am y pathewod hyn bellach - gan gynnwys pa mor hir y maent yn byw, sut mae eu pwysau yn amrywio drwy gydol y flwyddyn a faint sy'n goroesi gaeafgysgu."

Mae pathewod wedi'u gwarchod o dan gyfraith Ewrop ac mae'n ofynnol i'r DU fonitro'r rhywogaethau. Ers i gofnodi ddechrau yn y DU yn y 1990au cynnar, mae gostyngiad yn nifer y pathewod, a'r amrywiaeth o rywogaethau, wedi cael ei arsylwi. Mae arbenigwyr yn credu bod y dirywiad wedi bod yn digwydd am o leiaf 100 mlynedd o ganlyniad i golled a darniad yn eu cynefin.

Heddiw, mae'r duedd ar i lawr yn y boblogaeth genedlaethol yn parhau er bod ychydig o dystiolaeth yn awgrymu bod cyfradd y dirywiad yn arafu o'r diwedd. Fodd bynnag, ar safle astudio Partneriaeth Pathewod y Gogledd Orllewin yn Bontuchel yng Ngogledd Cymru, mae gwaith arolygu wedi datgelu poblogaeth sefydlog fawr o bathewod.

Ychwanegodd Sarah:

"Mae ein safle arolygu yng Ngogledd Cymru ar ymyl gogledd-orllewinol eu hystod Ewropeaidd ac, o'r cychwyn, rydym wedi cael ein synnu gan faint o bathewod sydd yno. Dyna

pam ei fod yn brosiect pwysig iawn ac yn safle pwysig iawn ar gyfer astudio - er mwyn deall pam bod y coetir hwn mor dda ar gyfer pathewod.

"Mae'n amlwg bod rheoli cynefin gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud gwahaniaeth mawr. Nid yw gadael coetir heb ei reoli yn dda ar gyfer pathewod. Mae ein hastudiaeth 10 mlynedd wedi dangos bod coedlannu ardaloedd bach o goed ar y tro, gan ganiatáu i oleuni gyrraedd llawr y goedwig, yn sicr yn eu helpu yma, ac mae o fudd i rywogaethau coetir eraill hefyd. Mae'r dulliau hyn yn creu coetir amrywiol gyda choed o wahanol rywogaethau ac oedrannau, a llawer o blanhigion gwyllt eraill sy'n darparu bwyd a chysgod helaeth ar gyfer ein pathewod."



Gwirio blwch nythu pathew



Gwelliannau i Gynefin Madfall Ddŵr Gribog Sir y Fflint

Mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir y Fflint a'r Ceidwad Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Mandy Cartwright, wedi bod yn gweithio gyda Cheidwaid Cefn Gwlad Sir y Fflint i wella pyllau bridio'r fadfall ddŵr gribog; a reolir gan y gwasanaeth cefn gwlad yn Ardal o Gadwraeth Arbennig Glannau Dyfrdwy a Bwcle.

Cynhaliodd Mandy asesiadau pwll, a'u rhoi wedyn mewn adroddiad; gan roi manylion rhaglen waith a fydd yn cael ei rhoi ar waith dros y tair blynedd nesaf.

Mae oes y fadfall ddŵr gribog yn gymharol hir – mewn cynefin na chaiff ei darfu, gall oroesi nes y bydd yn ei arddegau. Mae'n well gan fadfallod dŵr cribog fridio mewn pyllau cymharol fawr nad ydynt yn cefnogi pysgod. Yn nodweddiadol, bydd y pyllau bridio wedi'u hinswleiddio'n dda ac yn cefnogi llystyfiant tanddwr ac ymylol toreithiog.

Mae gweithiau dyfrol a daearol eisoes wedi dechrau ar rai o'r pyllau, yn ogystal â chreu rhai pyllau newydd.

Cafodd y gwaith a wnaed yn y lluniau ei ariannu drwy Building Wildlife Trust Ltd., a leolir yn rhan is Tir Comin Bwcle (Lower Common).

Cafodd y pwll yn y llun ei adfer ym mis Ionawr ac mae'r ceidwaid yn edrych ymlaen at arolygu'r madfallod dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.



Wythnos Bioamrywiaeth Cymru

Cynhelir Wythnos Bioamrywiaeth Cymru rhwng Dydd Sadwrn 6^{ed} Mehefin a Dydd Sul 14^{eg} Mehefin. Mae llawer yn digwydd yng Ngogledd Ddwyrain Cymru eleni, mae gennym wythnos yn llawn gweithgareddau bywyd gwyllt i bobl gymryd rhan ynddynt!



Wythnos Bioamrywiaeth Cymru
Wales Biodiversity Week

6-14 June/Mehefin 2015



Dyddiad	Digwyddiad	Gwybodaeth Bellach
5-7th Mehefin	Loggfest-We Three Loggerheads, Loggerheads ar y ffin rhwng Sir y Fflint/Sir Ddinbych	Gweler y wefan/Facebook am fanylion
6th Mehefin	Dŵr, tir, tân (Rhwydo pyllau, hela chwilod a cynnau tân) 10yb - 2yh ardal Betws-Y-Coed/Llanrwst	Cwrdd yng Nghyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd Rhyd-y-Creuau, Canolfan Maes Draper, Ffordd Llanrwst, Betws y Coed, LL24 OHB. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 01690 710494
6th Mehefin	Diwrnod Hwyl Bywyd Gwyllt 2yh - 4yh Plas Newydd, Llangollen	Galw i mewn
11th Mehefin	Bywyd Nos yn Nercwys 8:30yh-11yh Coed Nercwys	Cwrdd ym maes parcio'r Gogledd (SJ 218 593). Ffoniwch 01352 810614 i archebu eich lle
14th Mehefin	Twyni Blodau i Ddechreuwyd 2yh-4yh Bae Cinmel	Cwrdd ym maes parcio twyni Cinmel, wrth giosgau'r promenâd. Rhaid archebu lle, ffoniwch 01492 575337
14th Mehefin	Diwrnod Hwyl Bywyd Gwyllt yn yr Ardd - 11yb-4yh Parc Gwepa, Cei Connah	Galw i mewn

Digwyddiadau

Pan fydd Wythnos Bioamrywiaeth Cymru wedi gorffen, mae digon o ddigwyddiadau i'w mwynhau drwy gydol y flwyddyn.

Ewch i'n gwefannau partner i ddod o hyd i'r rhestrau diweddaraf:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
www.conwy.gov.uk/sectionextra.asp?cat=11962&Language=2

Cyngor Sir Ddinbych
www.denbighshirecountryside.org.uk/digwyddiadau/

Cyngor Sir y Fflint
www.sirymfflint.gov.uk/cy/Resident/Council-Apps/Events.aspx

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrexham
www.wrexham.gov.uk/welsh/leisure_tourism_w/countryside_news.cfm

Bywyd Gwyllt Gogledd Dywrain Cymru
www.newwildlife.org.uk/events/

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/beth-sy-mlaen

Cofnod
www.cofnod.org.uk/Calendar



Parhewch â'r Gwaith Cadwraeth

Cysylltwch â Ni

Wrexham: emma.broad@wrexham.gov.uk

Ffôn: 01978 298762

Flintshire: lawrence.w.gotts@flintshire.gov.uk

Ffôn: 01352 703263

Denbighshire: elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk

Ffôn: 01352 811029

Conwy: anne.butler@conwy.gov.uk

Ffôn: 01492 575123

www.bionetwales.co.uk



Dilynwch Ni!

Os ydych yn hoffi ein tudalen ar Facebook, sef Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am broiectau bioamrywiaeth yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrexham. Rydym yn llwytho newyddion i'r safle yn eich hysbysu o newyddion cyffrous, digwyddiadau, ffotograffau a phroiectau yn yr ardal. Dyma ffordd syml a chyflym, sy'n rhad ac am ddim, o ddod i wybod pa weithgareddau bioamrywiaeth sy'n digwydd a sut allwch chi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn o fewn eich sir.

Ymhellach, mae gennym gyfrif ar Twitter sy'n debyg i Facebook – gallwch dderbyn newyddion rheolaidd, a gwybodaeth am lwyddiannau a digwyddiadau.

Felly, dilynwch ni ar

Facebook: www.facebook.com/NEWBionet

Twitter: @newbionet